
# DYFED - POWYS



# Adroddiad Blynyddol 2017/2018

# Cyflwyniad

## Amy Rees – Gwasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Mawrhydi i’w hychwanegu

Mae’r GCPhEM yng Nghymru yn gweithio i sicrhau fod ein cymunedau yn fwy diogel, troseddwyr yn cael eu cefnogi ac yn atal pobl rhag bod yn ddioddefwyr. Rydym yn anelu at ddarparu llwybr parhaus i ad-drefnu gweithio mewn partneriaeth gyda gwasanaethau trosedd a chyfiawnder cymdeithasol i gyflawni hyn. Oherwydd hyn mae’r GCPhEM yng Nghymru wedi ymroi i weithio mewn partneriaeth gydag asiantaethau MAPPA i warchod y cyhoedd rhag mynd yn ddioddefwyr niwed difrifol yn ein cymunedau.

Rydym yn cydnabod mai’r unig ffordd effeithiol i reoli risg yw trwy weithio ar y cyd gydag asiantaethau dan MAPPA er mwyn diogelu dioddefwyr ac osgoi rhagor o ddioddefwyr yn y dyfodol. Mae MAPPA yn caniatáu i ni gasglu’r gudd-wybodaeth angenrheidiol, arbenigedd a chyfraniad gwerthfawr ein hasiantaethau partner o fewn fframwaith cyfreithiol i allu gwella ein dealltwriaeth o’r risg posibl all ddilyn o ryddhau troseddwyr i’r gymuned a sut mae modd rheoli’r risg yna er mwyn amddiffyn y cyhoedd.

Mae’r GCPhEM yng Nghymru a’r holl asiantaethau sy’n gysylltiedig â MAPPA yn gosod amddiffyn y cyhoedd fel eu blaenoriaeth uchaf ac mae’r adroddiad hwn yn adlewyrchu penderfyniad a chyfraniad gwerthfawr holl asiantaethau sy’n gysylltiedig â MAPPA, wedi ymroi i amddiffyn y cyhoedd, wrth hyrwyddo cymunedau mwy diogel yng Nghymru.

## Mark Collins, Prif Gwnstabl, Heddlu Dyfed-Powys

Mae’n dda gan y Cyfarwyddwr Gweithredol Amy Rees a’r Prif Gwnstabl Mark Collins gyflwyno’r adroddiad ar y Trefniadau Amlasiantaethol ar gyfer Diogelu'r Cyhoedd (MAPPA) yn Nyfed-Powys ar gyfer 2017-18.

Mae’r broses MAPPA yn darparu fframwaith cyfreithiol i asiantaethau gydweithio gyda’r nod o ddiogelu ein cymunedau rhag y troseddwyr hynny sy’n cyflwyno’r perygl mwyaf.

Yn Nyfed-Powys, rydyn ni’n cydnabod bod gwaith partneriaeth yn hanfodol er mwyn rheoli troseddwyr yn y gymuned. Mae MAPPA yn ein galluogi i rannu gwybodaeth ac arbenigedd, sy’n arwain at broses asesu risg fwy gwybodus. Yn ei dro, mae hyn yn arwain at ffurfio cynlluniau rheoli risg priodol a pherthnasol.

Mae’r manylion yn yr adroddiad hwn yn adlewyrchu ymrwymiad parhaus pob asiantaeth sydd wedi cofrestru â MAPPA, sy’n canolbwyntio ar ddiogelu’r cyhoedd a hyrwyddo cymunedau mwy diogel yn ardal Dyfed-Powys ar yr un pryd.

Cyflwynwn ein hadroddiad i chi.

# Beth yw MAPPA?

## Cefndir MAPPA

MAPPA (Trefniadau Amlasiantaethol ar gyfer Diogelu'r Cyhoedd) yw'r trefniadau i reoli'r risg a achosir gan y troseddwyr rhyw a throseddwyr treisgar mwyaf difrifol (troseddwyr MAPPA) dan ddarpariaethau adrannau 325 i 327B Deddf Cyfiawnder Troseddol 2003.

Maent yn dod â'r Gwasanaethau Heddlu, Prawf a Charchardai ym mhob un o'r 42 Ardal yng Nghymru a Lloegr at ei gilydd i ffurfio Awdurdod Cyfrifol MAPPA.

Mae gan nifer o asiantaethau eraill ddyletswydd i gydweithredu â'r Awdurdod Cyfrifol. Mae'r rhain yn cynnwys y Gwasanaethau Cymdeithasol, Ymddiriedolaethau Iechyd, Timau Troseddau Ieuenctid, Canolfan Byd Gwaith ac Awdurdodau Tai ac Addysg Lleol.

Mae'n ofynnol i'r Awdurdod Cyfrifol benodi dau Ymgynghorydd Lleyg i fod yn aelodau'r Bwrdd Rheoli Strategol ar gyfer pob ardal MAPPA ochr yn ochr ag uwch gynrychiolwyr o bob un o'r Awdurdodau Cyfrifol a'r asiantaethau sydd â Dyletswydd i Gydweithredu.

Aelodau o'r cyhoedd yw Ymgynghorwyr Lleyg heb unrhyw gysylltiad â'r gwaith o reoli troseddwyr MAPPA. Maent yn sylwebyddion annibynnol ond gwybodus; maent yn gallu gofyn cwestiynau efallai na fyddai'r gweithwyr proffesiynol sy'n agos iawn at y gwaith yn ystyried eu codi. Maent hefyd yn dod â'u dealltwriaeth a'u canfyddiadau nhw o'r gymuned leol i'r Bwrdd Rheoli Strategol (ac mae'n rhaid eu bod yn byw yn y gymuned honno neu fod ganddynt gysylltiad cryf â hi).

## Sut mae'r MAPPA'n gweithio

Penderfynir pa droseddwyr sy'n gymwys ar gyfer MAPPA, ac mae'r asiantaethau'n rhannu gwybodaeth amdanynt er mwyn bwydo asesiadau a chynlluniau risg y rhai sydd yn eu rheoli neu eu goruchwylio.

Yn y rhan fwyaf o achosion, dyna pa mor bell y mae MAPPA'n ymestyn, ond mewn rhai achosion, penderfynir bod angen rheolaeth amlasiantaethol weithredol. Mewn achosion felly, cynhelir cyfarfodydd MAPPA rheolaidd a fynychir gan ymarferwyr o'r asiantaethau perthnasol.

Y mae tri chategori o droseddwyr sy'n gymwys ar gyfer MAPPA:

- **Categori 1** – troseddwyr rhyw cofrestredig;
- **Categori 2** – (yn bennaf) troseddwyr treisgar wedi'u dedfrydu i garchar am 12 mis neu fwy
- **Categori 3** – troseddwyr nad ydynt yn gymwys dan gategori 1 na 2, ond sydd ar y pryd yn achosi risg o niwed difrifol.

Y mae tair lefel o reolaeth er mwyn sicrhau y defnyddir adnoddau yn yr achosion lle y mae mwyaf eu hangen; fel arfer y rhai lle y mae mwy o berygl o niwed difrifol.

- Golyga **Lefel 1** reolaeth asiantaethol arferol (h.y. dim adnoddau na chyfarfodydd MAPPA);
- Golyga **Lefel 2** bod angen cyfraniad gweithredol sawl asiantaeth er mwyn rheoli'r troseddwr.
- Pan fo angen goruchwyliaeth gan uwch swyddogion, byddai'r achos yn cael ei reoli ar **Lefel 3**.

Cefnogir MAPPA gan ViSOR, sef cronfa TG genedlaethol ar gyfer rheoli pobl sy'n peri risg difrifol o niweidio'r cyhoedd. Bu'r heddlu'n defnyddio ViSOR ers 2005 ond daeth y system yn weithredol yn llawn ym Mehefin 2008 gan alluogi staff allweddol o'r Gwasanaethau Heddlu, Prawf a Charchardai i weithio ar yr un system TG am y tro cyntaf, gan wella ansawdd ac amseroldeb asesiadau risg ac ymyriadau er mwyn atal aildroseddu. Trwy ddefnyddio ViSOR ar y cyd, cynyddir y gallu i rannu gwybodaeth ymysg sefydliadau a galluogi'r wybodaeth allweddol i gael ei throsglwyddo'n ddiogel pan mae'r troseddwyr risg uchel hyn yn symud, gan wella mesurau diogelu'r cyhoedd.

Cyhoeddir pob Adroddiad Blynyddol ar-lein ar: www.gov.uk

# Ystadegau MAPPA

| **Nifer y troseddwyr sy’n gymwys ar gyfer MAPPA ar 31 Mawrth 2018** | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | Categori 1: Troseddwyr rhyw cofrestredig | Categori 2: Troseddwyr treisgar | Categori 3: Troseddwyr peryglus eraill | Cyfanswm |
| Lefel 1 | 484 | 107 | - | 591 |
| Lefel 2 | 4 | 6 | 6 | 16 |
| Lefel 3 | 3 | 1 | 0 | 4 |
| Cyfanswm | 491 | 114 | 6 | 611 |

| **Nifer y troseddwyr sy’n gymwys ar gyfer MAPPA yn Lefelau 2 a 3 yn ôl categori (cyfanswm blynyddol)** | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | Categori 1: Troseddwyr rhyw cofrestredig | Categori 2: Troseddwyr treisgar | Categori 3: Troseddwyr peryglus eraill | Cyfanswm |
| Lefel 2 | 18 | 10 | 12 | 40 |
| Lefel 3 | 9 | 3 | 0 | 12 |
| Cyfanswm | 27 | 13 | 12 | 52 |

| | |
|---|---|
| **Troseddwyr Rhyw Cofrestredig wedi derbyn rhybudd neu euogfarn am dorri gofynion hysbysu** | 18 |

| | |
|---|---|
| **Troseddwyr Rhyw Cofrestredig sydd â’u hysbysiad gydol oes wedi’i ddiddymu ar gais** | 0 |

| **Gorchmynion cyfyngol ar gyfer troseddwyr Categori 1** | |
|---|---|
| **Gorchmynion Atal Niwed Rhywiol, Gorchmynion Atal Niwed Rhywiol gyda chyfyngiadau teithio tramor a Gorchmynion Hysbysu a orfodir gan y llysoedd** | |
| Gorchmynion Atal Niwed Rhywiol | 62 |
| Gorchmynion Atal Niwed Rhywiol gyda chyfyngiadau teithio tramor | 0 |
| Gorchmynion Hysbysu | 4 |

| Nifer y bobl a ddaeth yn destun gofynion hysbysu ar ôl torri Gorchymyn Perygl Rhywiol | 0 |
|---|---|

| Troseddwyr Lefelau 2 a 3 a ddychwelwyd i'r ddalfa | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | Categori 1: Troseddwyr rhyw cofrestredig | Categori 2: Troseddwyr treisgar | Categori 3: Troseddwyr peryglus eraill | Cyfanswm |
| **Torri amodau eu trwydded** | | | | |
| Lefel 2 | 1 | 5 | 2 | 8 |
| Lefel 3 | 3 | 0 | 0 | 3 |
| Cyfanswm | 4 | 5 | 2 | 11 |
| **Torri Gorchymyn Atal Troseddau Rhyw** | | | | |
| Lefel 2 | 0 | - | - | 0 |
| Lefel 3 | 0 | - | - | 0 |
| Cyfanswm | 0 | - | - | 0 |

| Cyfanswm y Troseddwyr Rhyw Cofrestredig am bob 100,000 o'r boblogaeth | 106 |
|---|---|

Cafodd y ffigwr hwn ei gyfrifo ar sail Poblogaeth Amcangyfrifol Canol Blwyddyn 2017: Fesul oedran a rhyw ar gyfer Ardaloedd Plismona yng Nghymru a Lloegr; amcangyfrif poblogaeth, a gyhoeddwyd gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol, namyn plant dan ddeg oed.

# Esbonio’r tablau ystadegol

## Cefndir MAPPA

Mae cyfanswm y troseddwyr sy’n gymwys ar gyfer MAPPA, yn dangos y sefyllfa, yn ôl categori, 31 Mawrth 2018 (h.y. ciplun ydynt). Mae gweddill y data’n ymwneud â’r cyfnod o 1 Ebrill 2017 i 31 Mawrth 2018.

**a) Troseddwyr cymwys MAPPA** - mae'r gyfraith yn diffinio nifer o droseddwyr fel rhai sy'n gymwys am reolaeth trwy MAPPA, oherwydd eu bod wedi cyflawni troseddau rhyw neu droseddau treisgar penodol neu eu bod yn achosi risg o niwed difrifol, er bod y mwyafrif (97% eleni) mewn gwirionedd yn cael eu rheoli dan drefniadau arferol asiantaeth (lefel 1) yn hytrach na thrwy gyfarfodydd MAPP llawn. Mae’r ffigurau hyn ond yn cynnwys troseddwyr sy’n gymwys ar gyfer MAPPA sy’n byw yn y gymuned. Nid ydynt yn cynnwys y rhai sydd yn y carchar neu’n cael eu cadw o dan y Ddeddf Iechyd Meddwl.

**(b) Troseddwyr Rhyw Cofrestredig** – y rhai hynny sy'n gorfod rhoi eu henwau, eu cyfeiriadau a’u manylion personol eraill i’r heddlu, a hefyd rhoi gwybod am unrhyw newid wedyn (“gofyniad hysbysu” y gelwir hyn). Mae peidio â chydymffurfio â'r gofynion hysbysu’n drosedd gyda chosb uchaf o garchar am bum mlynedd.

**(c) Troseddwyr Treisgar** – mae'r categori hwn yn cynnwys troseddwyr wedi'u dedfrydu i garchar neu gystodaeth am 12 mis neu'n fwy, neu wedi'u cadw dan orchymyn ysbyty. Y mae hefyd yn cynnwys nifer fach o droseddwyr rhyw nad ydynt yn gymwys i'w cofrestru, a throseddwyr wedi'u gwahardd rhag gweithio gyda phlant.

**(ch) Troseddwyr Peryglus Eraill** – troseddwyr nad ydynt yn gymwys dan ddau gategori arall MAPPA, ond sy'n achosi risg o niwed difrifol sydd angen ei reoli trwy gyfarfodydd MAPPA.

**(d) Torri amodau trwydded** – bydd troseddwyr a ryddheir i'r gymuned yn dilyn cyfnod o 12 mis neu'n fwy yn y carchar yn cael eu rheoli dan drwydded gydag amodau (dan oruchwyliaeth y Gwasanaeth Prawf). Os torrir yr amodau hyn, cymerir camau yn erbyn y troseddwyr, ac mae'n bosib y cânt eu galw'n ôl i'r carchar.

**(dd) Gorchymyn Atal Niwed Rhywiol – (gan gynnwys unrhyw gyfyngiadau ychwanegol o ran teithio tramor).**

Bwriad Gorchmynion Atal Niwed Rhywiol a Gorchmynion Atal Niwed Rhywiol interim yw diogelu’r cyhoedd rhag troseddwyr sydd wedi’u heuogfarnu o drosedd rywiol neu dreisgar sy’n cyflwyno perygl o niwed rhywiol i’r cyhoedd drwy osod cyfyngiadau ar eu hymddygiad. Mae’n ofynnol i’r troseddwr hysbysu’r heddlu am eu manylion (fel y nodir yn Adran 2 o Ddeddf 2003) hyd ddiwedd cyfnod y gorchymyn.

Rhaid i’r llys bod yn fodlon bod gorchymyn yn ofynnol er mwyn diogelu’r cyhoedd (neu aelodau penodol o’r cyhoedd) yn y DU, neu blant neu oedolion bregus (neu unrhyw blant neu oedolion bregus penodol) tramor, rhag niwed rhywiol gan y troseddwr. Yn achos gorchymyn a wneir ar gais rhydd gan brif swyddog neu’r Asiantaeth Troseddu Cenedlaethol (ATC), rhaid i’r prif swyddog/ATC fedru dangos bod y troseddwr wedi ymddwyn yn y fath modd ers ei euogfarn nes y bydd gorchymyn yn angenrheidiol.

Y cyfnod lleiaf ar gyfer gorchymyn llawn yw 5 mlynedd. Y terfyn oed isaf yw 10, sef yr oedran cyfrifoldeb troseddol, ond pan mae diffynnydd o dan 18 oed, dylid ond ystyried cais am orchymyn mewn amgylchiadau eithriadol.

**(e) Gorchymyn Hysbysu** – mae hwn yn gorfodi troseddwyr rhyw sydd wedi'u cael yn euog mewn gwlad dramor i gofrestru gyda'r heddlu, er mwyn diogelu'r cyhoedd yn y DU rhag y risg a achosir ganddynt. Gall yr heddlu gyflwyno cais i'r llys am orchymyn ar gyfer troseddwyr sydd yn y DU, neu sy'n bwriadu dod i'r DU.

**(h) Gorchymyn Perygl Rhywiol (gan gynnwys unrhyw gyfyngiadau ychwanegol o ran teithio tramor)**
Disodlodd y Gorchymyn Perygl Rhywiol (GPRh) y Gorchymyn Perygl Niwed Rhywiol (GPNRh) a gellir ei wneud mewn perthynas â pherson sydd heb ei euogfarnu ar gyfer trosedd rywiol neu dreisgar, ond sy'n cyflwyno perygl o niwed rhywiol.

Gellir gwneud y GPRh yn y llys ynadon ar gais, gan yr heddlu neu'r ATC, pan mae unigolyn wedi cyflawni gweithred o natur rywiol ac mae'r llys yn fodlon bod y person yn cyflwyno perygl o niwed i'r cyhoedd yn y DU neu blant neu unigolion bregus tramor.

Gall GPRh wahardd y person rhag gwneud unrhyw beth a ddisgrifir ynddo - mae hyn yn cynnwys atal teithio tramor. Rhaid bod unrhyw waharddiad yn ofynnol er mwyn diogelu'r cyhoedd yn y DU rhag niwed rhywiol neu, mewn perthynas â theithio tramor, diogelu plant neu oedolion bregus rhag niwed rhywiol.

Disgwylir i unrhyw unigolyn sy'n destun GPRh hysbysu'r heddlu am ei enw a'i gyfeiriad cartref o fewn tri diwrnod ar ôl i'r gorchymyn gael ei wneud, a hysbysu ynghylch unrhyw newidiadau i'r wybodaeth hon fewn tri diwrnod.

Gall GPRh bara am leiafswm o ddwy flynedd, ac nid oes hyd pennaf, gan eithrio unrhyw gyfyngiadau o ran teithio tramor sydd, os yn berthnasol, yn para am uchafswm o 5 mlynedd (ond gellir adnewyddu hyn).

Mae'r safon brofi droseddol dal yn berthnasol, mae'r person dan sylw dal yn medru apelio yn erbyn y gorchymyn, ac mae'r heddlu neu'r person dan sylw yn medru gwneud cais am i'r gorchymyn gael ei amrywio, ei adnewyddu neu ei ryddhau.

Mae torri GPRh yn dramgwydd troseddol, sydd â chosb uchaf o 5 mlynedd o garchar. Pan mae unigolyn yn torri ei GPRh, byddant yn ddarostyngedig i ofynion llawn yr hysbysiad.

Bellach, mae unigolion sy'n destun GPRh yn cael eu cofnodi ar VISOR, fel Person Peryglus Posibl (PPP).

**(i) Gofynion hysbysu gydol oes a ddiddymir ar gais**
Mae her gyfreithiol yn 2010 ac ymateb deddfwriaethol cyfatebol yn golygu bod mecanwaith bellach mewn grym a fydd yn galluogi troseddwyr rhyw cymwys i wneud cais am adolygiad o'u gofynion hysbysu.

Bydd unigolion sy'n destun hysbysiad amhendant ond yn gymwys i geisio adolygiad pan fyddant wedi bod yn destun gofyniad hysbysu amhendant am gyfnod o 15 mlynedd o leiaf ar gyfer oedolion ac 8 mlynedd ar gyfer ieuenctid. Mae hyn yn berthnasol o 1 Medi 2012 ar gyfer troseddwyr sy'n oedolion.

Ar 21 Ebrill 2010, yn achos *R (ar gais F ac Angus Aubrey Thompson) yn erbyn yr Ysgrifennydd Gwladol dros yr Adran Gartref [2010] UKSC 17*, cadarnhaodd y Goruchaf Lys benderfyniad cynharach y Llys Apêl gan wneud datganiad o anghytundeb o dan a. 4 o Ddeddf Hawliau Dynol 1998 mewn perthynas â gofynion hysbysu am gyfnod amhendant o dan adran 82 o Ddeddf Troseddau Rhywiol 2003.
Mae hyn wedi'i unioni yn rhinwedd Gorchymyn Deddf Troseddau Rhywiol (Adfer) 2012 sydd wedi cyflwyno'r cyfle i droseddwyr sy'n destun hysbysiad amhendant i geisio adolygiad; deddfwyd hyn ar 30 Gorffennaf 2012.

Ni fydd unigolion yn dod oddi ar y rhestr yn awtomatig. Disgwylir i droseddwyr cymwys gyflwyno cais i'r heddlu yn ceisio adolygiad o'u gofynion hysbysu amhendant. Bydd hyn ond yn digwydd unwaith y byddant wedi cwblhau'r cyfnod amser lleiaf sy'n ddarostyngedig i'r gofynion hysbysu (15 mlynedd o adeg yr hysbysiad cyntaf ar ôl cael eu rhyddhau o'r ddalfa ar gyfer y drosedd indecs i oedolion ac 8 mlynedd ar gyfer ieuenctid).

Bydd y rhai sydd dal yn cyflwyno perygl sylweddol yn parhau ar y gofrestr am oes, os oes angen. Os yw troseddwr yn destun Gorchymyn Atal Troseddau Rhywiol, rhaid i'r gorchymyn gael ei ryddhau o dan adran 108 o Ddeddf Troseddau Rhywiol 2003 cyn cais am adolygiad o'u gofynion hysbysu amhendant.

Am ragor o wybodaeth, gweler adran y Swyddfa Gartref o wefan gov.uk:
https://www.gov.uk/government/publications/sexual-offences-act-2003-remedial-order-2012

# Tudalen leol

## Gwasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Mawrhydi

Graham Barret, Gwasanaeth Carchardai a Phrawf EM, Llywodraethwr – Carchar EM Abertawe

Christine Harley, Gwasanaeth Carchardai a Phrawf EM, Pennaeth yr Uned Gyflenwi Leol – Y Gwasanaeth Prawf

Mae diogelu'r cyhoedd dal yn flaenoriaeth ar gyfer Gwasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Mawrhydi yn Nyfed-Powys ac mae cymryd rhan yn y broses MAPPA ac ymgysylltu â'r Bwrdd Rheoli Strategol yn bwysig iawn. Mae Gwasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Mawrhydi wedi elwa o waith partneriaeth da gydag asiantaethau eraill wrth reoli troseddwyr. Arddangosir hyn drwy ymrwymiad partneriaid i fod yn bresennol mewn cyfarfodydd, sydd weithiau'n cael eu galw ar fyr rybudd, er mwyn sicrhau bod gennym gynlluniau rheoli risg cadarn mewn grym.

Mae staff y gwasanaeth prawf wedi bod mewn nifer o ddigwyddiadau hyfforddi a drefnwyd drwy'r uned MAPPA. Mae hyn yn cynnwys hyfforddiant a ddarparwyd gan Marcella Leonard, arbenigwr ar ddiogelu'r cyhoedd, ar weithio gyda throseddwyr rhyw helwriaethol a hyfforddiant ARMIDILO-S, sef yr Asesiad o Risg a Hydrinedd Unigolion â Chyfyngiadau Datblygiadol a Deallusol sy'n troseddu'n rhywiol. Mae adborth gan staff yn dangos eu bod nhw wedi elwa'n fawr drwy ymgysylltu yn y digwyddiad hwn. Bu hyfforddiant cadeirydd MAPPA parhaus ar gyfer y rhai sy'n newydd i'r rôl hon hefyd.

Mae rhai o aelodau staff y Gwasanaeth Prawf wedi'u lleoli yng nghanolbwynt diogelu'r cyhoedd ym Mhencadlys yr Heddlu, sy'n rhoi cyfle i sicrhau bod gan Heddlu Dyfed-Powys systemau effeithiol ar gyfer cyfathrebu â charchardai yng Nghymru a Lloegr, ac mae'n cysylltu mewn modd amserol i MAPPA.

Fel rhan o Wasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Mawrhydi, mae Uned Gyflawni Leol y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol yn Nyfed-Powys wedi bod yn cefnogi gweithredu'r Model Rheoli Troseddwyr yn y Ddalfa. Nid oes gan Uned Gyflawni Leol Dyfed-Powys wasanaeth carchar yn yr ardal, ac ar gyfer carcharorion o gymunedau yn Nyfed-Powys, bydd y model Rheoli Troseddwyr yn y Ddalfa'n golygu bod y rhai sydd â mwy na deg mis o garchar yn weddill yn cael eu rheoli yn y ddalfa.

Mae tîm Diogelu'r Cyhoedd y Carchar wedi'i gryfhau gyda chyflwyniad y Model Rheoli Troseddwyr yn y Ddalfa, sydd wedi cyflwyno uwch weithiwr prawf i'r carchar er mwyn gweithio gyda Rheolwyr Troseddwyr y Carchar fel Pennaeth Cyflawni URhT. Mae hyn wedi hwyluso'r defnyddio rhwydweithiau sy'n bodoli eisoes i rannu gwybodaeth yn effeithiol ac effeithlon, ac mae'n rhywbeth a fydd yn cael ei ddatblygu dros y flwyddyn i ddod.

Mae'r lefel profiad uwch hwn hefyd wedi helpu staff y carchar i feddwl yn gliriach mewn perthynas â ffactorau risg y tu allan i'r carchar, ac er yn ddyddiau cynnar, rhagwelir y byddwn yn lleihau'r perygl y bydd pobl yn dioddef niwed difrifol.

## Richard Lewis, Prif Gwnstabl Cynorthwyol Heddlu Dyfed-Powys a Chadeirydd y Bwrdd Rheoli Strategol

Mae Bwrdd Rheoli Strategol MAPPA Dyfed-Powys yn gyfrifol am reoli gweithgarwch MAPPA o fewn Dyfed-Powys. Ar ôl cymryd drosodd yn ddiweddar fel Cadeirydd y Bwrdd Rheoli Strategol, mae'n glir y dangoswyd lefel uchel o ymrwymiad a gwaith caled dros y flwyddyn ddiwethaf o ran cyfrannu at waith MAPPA. Mae gan yr Awdurdodau Cyfrifol a'r asiantaethau sydd â Dyletswydd i Gydweithio ddyletswydd statudol i weithio'n agos er mwyn rheoli troseddwyr rhyw a throseddwyr treisgar, a'r peryglon posibl maen nhw'n cyflwyno i'r cyhoedd, yn effeithiol.

Gwnaed cynnydd sylweddol hyd yn hyn mewn perthynas â datblygu gweithdrefnau diogelu'r cyhoedd rhwng asiantaethau drwy Ganolbwynt Diogelu'r Cyhoedd a Rheoli Troseddwyr Difrifol a Pheryglus Integredig Cymru, sy'n medru cynorthwyo â rheoli troseddwyr MAPPA. Rwy'n edrych ymlaen at weithio gyda fy nghyd aelodau ar y Bwrdd Rheoli Strategol eleni er mwyn parhau i adeiladu ar waith MAPPA o fewn Dyfed-Powys a'i gryfhau.

## Anthony Griffiths, Ditectif Uwch-arolygydd, Heddlu Dyfed-Powys

Mae cysylltiad Heddlu Dyfed-Powys o fewn MAPPA'n cael ei lywodraethu gan yr Adran Diogelu Pobl Fregus o fewn Heddlu Dyfed-Powys. Mae'r adran hefyd yn mynd i'r afael â meysydd bregusrwydd ac amddiffyn eraill, ac mae'n cael ei goruchwylio gan y Bwrdd Bregusrwydd Strategol, sy'n cael ei gadeirio gan y Prif Gwnstabl Cynorthwyol, Mr Richard Lewis.

Mae staff MAPPA penodol yn gweithio o fewn Canolbwynt Diogelu'r Cyhoedd ym Mhencadlys Heddlu Dyfed-Powys, ochr yn ochr â chydweithwyr o Wasanaeth Carchardai a Phrawf EM, a thimoedd diogelu a rheoli troseddwyr eraill. Mae hyn yn cynnig ymagwedd gydlynus tuag at adnabod a rheoli risg, ynghyd â rhannu gwybodaeth a diogelu. Cytunwyd ar brosesau newydd er mwyn uchafu cyfleoedd i rannu gwybodaeth gydag asiantaethau eraill er mwyn cyflawni gwell goruchwyliaeth, monitro a rheoli o ran troseddwyr. Mae digwyddiad gwella parhaus hefyd wedi arwain at gydlynu a chyfathrebu gwell rhwng y swyddogaethau gwahanol o fewn Canolbwynt Diogelu'r Cyhoedd.

Mae'r cynnydd parhaus o ran adrodd am droseddau rhyw ar draws y DU wedi arwain at gynnydd parhaus cyfatebol yn nifer y troseddwyr sy'n cael eu rheoli o fewn y strwythurau MAPPA. Defnyddiwyd adnoddau gweinyddol ychwanegol a defnyddiwyd technoleg yn well er mwyn cynorthwyo â'r cynnydd o ran galw er mwyn gwneud y mwyaf o amser swyddogion yn ystod ymweliadau â throseddwyr. Mae hyn yn cynnwys timoedd heddlu'n gweithio'n agos ag asiantaethau partner.

Mae ymateb gweithredol yr heddlu i reoli troseddwyr o ddydd i ddydd yn cael ei gyflenwi gan adnoddau sydd wedi'u huno o fewn Timoedd Rheoli Troseddwyr sydd wedi'u lleoli ledled ardal Dyfed-Powys ac sy'n cael eu goruchwylio gan Dditectif Uwch-arolygwyr. Mae'r timoedd hyn yn rheoli'r prosesau MAPPA ac IOM (Rheoli Troseddwyr yn Integredig), yn ogystal â'r arbenigwyr sydd wedi ymrwymo i ymdrin â Cham-drin Domestig.

Mae swyddogion Rheoli Troseddwyr Rhyw a Throseddwyr Treisgar yn cael eu cefnogi gan Ymchwilwyr Cyfryngau Digidol a Seiberdroseddu arbenigol sy'n medru monitro defnydd troseddwyr o delegyfathrebu a'r rhyngrwyd a chraffu arno. Yn ogystal, mae timoedd targedu'n aml yn cael eu lleoli i wella gwaith swyddogion Rheoli Troseddwyr Rhyw a Throseddwyr Treisgar er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth â gorchmynion rhwystrol.

Cynhelir cysylltiadau agos â thimoedd plismona bro, sy'n chwarae rhan bwysig mewn cefnogi gwaith staff arbenigol o bob asiantaeth o fewn MAPPA. Mae hyn wedi galluogi timoedd plismona i reoli ac ymateb i densiwn a gwrthdaro sydd weithiau'n medru codi o fewn cymunedau o ganlyniad i natur emosiynol y peryglon i blant a phobl sy'n agored i niwed.

Cyflawnwyd hyfforddiant ar y cyd â sefydliadau eraill yn ystod y flwyddyn er mwyn parhau â datblygiad proffesiynol staff yn y maes cymhleth hwn. Mae'r hyfforddiant a'r datblygiad wedi cynnwys gweithio'n agos â thîm canolog Rheoli Troseddwyr Difrifol a Pheryglus Integredig Cymru. Hefyd, eleni, gwelwyd model Rheoli Troseddwyr Difrifol a Pheryglus Integredig Cymru'n cael ei gorffori fel ymagwedd popeth-fel-y-mae ar gyfer cryfhau prosesau rheoli troseddwyr o fewn ardal Dyfed-Powys.

Mae Heddlu Dyfed-Powys dal yn chwilio i'r potensial ar gyfer cyfleoedd pellach i wella gwaith amlasiantaeth. Mae Heddlu Dyfed-Powys dal wedi ymrwymo i reoli troseddwyr MAPPA yn effeithiol a gweithio mewn partneriaeth ag asiantaethau eraill i adnabod a lleihau'r peryglon i'r gymuned.

# Lyn Hambidge a Nicola Rabjohns, Ymgynghorwyr Lleyg i Fwrdd Rheoli Strategol Dyfed-Powys.

Ar ôl recriwtio ail Ymgynghorydd Lleyg yn hwyr fis Chwefror 2018, mae'r Bwrdd yn awr yn llawn am y tro cyntaf mewn 5 mlynedd. Edrychwn ymlaen at gydweithio â'r Bwrdd Rheoli Strategol er mwyn ychwanegu gwerth i drefniadau MAPPA Dyfed-Powys.

Bellach, mae presenoldeb ymwelydd lleyg mewn cyfarfodydd MAPPA Lefel 2 wedi'i drefnu gennym ar draws ardal Dyfed-Powys yn rheolaidd, a rhai cyfarfodydd lefel 3; mae hyn yn sicrhau ein bod ni'n medru deall y gwaith cymhleth anweledig a wneir gan y gwasanaeth prawf, yr heddlu, y gwasanaeth iechyd, yr awdurdod lleol a sefydliadau statudol a gwirfoddol eraill, yn well. Mae'r gwaith hwn yn cael ei gyflawni ar draws ffiniau asiantaethau ac yn erbyn cefndir o adnoddau sydd fwyfwy dan straen.

Ar hyn o bryd, rydyn ni'n ymweld â gwasanaethau cyfiawnder troseddol allweddol sy'n berthnasol i MAPPA, i gryfhau ac ategu'n gwybodaeth a'n dealltwriaeth. Gan ragweld gweithredu Pecyn Offer Sicrhau Ansawdd MAPPA dros y flwyddyn i ddod, rydyn ni'n cyfrannu at archwiliadau ffeiliau gan ddefnyddio'r pecyn offer. Yn ystod y flwyddyn i ddod, bydd hyn yn ein galluogi i ddarparu adborth gwrthrychol ar effeithiolrwydd y Pecyn Offer ac adnabod themâu allweddol.

Mae'r adolygiad o aelodaeth y Bwrdd Rheoli Strategol yn gynharach eleni wedi cryfhau ymrwymiad sefydliadol i'r broses MAPPA gan arwain at ymagwedd gryfach a mwy cydlynol tuag at adolygiadau rhwng asiantaethau. Mae gwaith pob partner MAPPA o ran diogelu'r cyhoedd yn anweledig a disylw gan mwyaf, ac mae'r gwaith ymysg y gwaith mwyaf heriol a chymhleth rhwng asiantaethau. Mae rôl Ymgynghorydd Lleyg yn helpu i sicrhau bod lles y cyhoedd yn derbyn y lle blaenaf.

## Manylion cyswllt Cydlynydd MAPPA Dyfed-Powys:

Georgina Jenkins
Cydlynydd MAPPA (Dyfed-Powys)
Uned MAPPA
Pencadlys Heddlu Dyfed-Powys
Llangynnwr
Sir Gaerfyrddin SA31 2PF
Ffôn - 01267 226321

**Cyhoeddir pob adroddiad MAPPA yng Nghymru a Lloegr ar-lein ar:**
**www.gov.uk**

National Probation Service

HM PRISON SERVICE

DYFED-POWYS HEDDLU • POLICE